

CYNGOR CYMUNED LLANDYSUL COMMUNITY COUNCIL

Cofnodion Cyfarfod Misol Cyngor Cymuned Llandysul Community Council a gynhaliwyd yng Nghanolfan Ieuencid Tysul Youth Centre, Llandysul, ar 13eg Ebrill 2015

Minutes of Monthly Meeting of Cyngor Cymuned Llandysul Community Council held at Canolfan Ieuencid Tysul Youth Centre, Llandysul, on 13th April 2015

Yn Bresennol/Present: Cyng/Cllrs Tom Cowcher, Eileen Curry, Beth Davies, Douglas Davies, Philippa Davies, Roy Davies, Wyn Evans, Andrew Howell, Terry Griffiths, Carolyn Reed-Rees, Abby Reid, Cyng Sir, Peter Davies

1 **Ymweliad/Visit** –

Roedd Ann Harris, Swyddog Llety â Chymorth i Cantref yn bresennol er mwyn hysbysu'r Cyngor Cymuned o'i gwaith. Os oes angen help ar unrhyw un yn yr ardal sy'n 50+ oed er mwyn eu galluogi i fod yn ddiogel ac yn annibynnol yn eu cartref, hysbysodd y Cyngor eu bod ar gael i helpu yn ôl yr angen. Byddai modd iddynt helpu ar ôl cael cyfeiriad a byddent yn anfon gweithiwr cymorth i helpu gydag unrhyw beth o lenwi gwaith papur, ailasesu anghenion byw neu helpu wrth gysylltu rhywun gyda'r bobl gywir. Diolchodd i'r Cyngor Cymuned am y cyfle i ddod i sôn am ei gwaith a gofynnodd i unrhyw un gysylltu os ydynt yn adnabod unrhyw un y mae angen eu help arnynt.

Ann Harris, Supported Housing Officer for Cantref visited to inform the Community Council of what her work involves. She informed the Council that if anyone in the area of age 50+ needed help with becoming safe and independent within their own homes that they were available to help if needed. They could help following a referral and would send in a support worker to help with anything from filling in paperwork, re-assessment of living needs or help with putting people in touch with the correct people. She thanked the Community Council for the opportunity to talk about her work and asked anyone to get in touch if they knew of anyone that needed their help.

Roedd PCSO Shân Davies yn bresennol er mwyn cyflwyno ei hadroddiad misol ynghylch troseddu yn Llandysul. Fis diwethaf, roedd wedi ymweld â'r Ysgol gynradd ac roedd wedi anfon llythyrau at rieni ynghylch parcio yn y safle bws ac ar y llinellau igam-ogam melyn, ac mae'n gobeithio rhoi sylw pellach i'r mater dros yr wythnosau nesaf. Ni adroddwyd am unrhyw ymddygiad gwrthgymdeithasol yn ystod y mis diwethaf. Er mwyn i'r heddlu ddal y bobl sy'n gyrru yn gyflymach na'r terfyn cyflymder, awgrymodd Cyng Wyn Evans y dylent ddefnyddio cerbyd nad yw'n edrych fel un o gerbydau'r heddlu.

PCSO Shân Davies visited with her monthly report on crime in Llandysul. Last month she had visited the primary School and sent letters to parents with regards to parking in the bus stop and zig zag lines and is hoping to follow it up in the coming weeks. There was no anti-social behaviour to report in the last month. Cllr Wyn Evans made the suggestion that in order for the police to catch people that break the speed limit in Llandysul that they should use an un-marked vehicle.

1 **Ymddiheuriadau/Apologies:** Cafwyd ymddiheuriadau gan/Apologies was received from Cyng/Cllrs Keith Evans, Aled Jones a Chynghorydd Sir / and County Councillor Peter Evans.

- 2 **Datgelu Buddiannau/Declarations of Interest:** Datgelodd Beth Davies fudd ym mhapur bro Triawd y Cardi / Beth Davies declared an interest in Triawd y Cardi paper .

- 3 **Cofnodion/Minutes:** Derbyniwyd bod cofnodion y cyfarfod misol a gynhaliwyd ar 9 Mawrth 2015 yn gywir ac fe'u llofnodwyd gan y Cadeirydd ar ôl newid enw Roy Evans i Roy Davies / Minutes of monthly meeting held on 9 March 2015 were accepted as correct and signed by the Chair after amending the name Roy Evans to Roy Davies.

Materion yn Codi:-

Pwll Nofio Ni chafwyd gwybodaeth gan y Pwll Nofio hyd yn hyn. Penderfynwyd cynnwys y mater ar agenda cyfarfod mis nesaf. Hysbyswyd y Cyngor gan Gyng Beth Davies bod rheolwr newydd wedi cael eu penodi ac y byddai hi yn ceisio cael gafael ar y wybodaeth berthnasol.

Coed ym Maesymeillion Hysbyswyd y pwyllgor gan Gynghorydd Sir Peter Davies y byddai'r coed yn cael eu harchwilio ar 25 Ebrill.

Bin Halen yn Nhapel Carmel Roedd y clerc wedi cael llythyr gan Mr Paul Arnold, Cyngor Sir Ceredigion, a oedd yn hysbysu'r Cyngor o'r weithdrefn er mwyn gosod biniau halen.

Penderfynwyd y dylem aros nes bod penderfyniad yn cael ei wneud cyn y byddai modd i ni wneud unrhyw beth pellach. Dywedodd Cyng Carolyn Reed-Rees bod y gyffordd ym Mhregwyn yn hynod o beryglus pan fo'r tywydd yn rhewllyd, a'i bod yn anodd iawn stopio yno.

4) Materion y mae angen gwneud penderfyniad amdanynt:-
(i) Papur Triawd y Cardi – Gofynnwyd am rodd o £300 er mwyn cyhoeddi papur ar gyfer ardal Pont-siân, Tre-groes a Chapel Dewi. Cynigiodd Cyng Eileen Curry y dylid rhoi'r swm o £300 ac eiliwyd y cynnig hwn gan Gyng Phillipa Davies. Roeddent yn teimlo ei bod yn bwysig iawn oherwydd y byddai'n integreiddio pobl newydd yn y Cymunedau. Penderfynwyd y dylai'r clerc ysgrifennu at Bwyllgor y Papur i'w hysbysu o bwysigrwydd bod yn hunangynhaliol, gan na fyddai'r Cyngor Cymuned mewn sefyllfa i ariannu'r rhifyn nesaf efallai.

Gohebiaeth

Un Llais Cymru – Cafwyd llythyr gan Un Llais Cymru ynghylch adnewyddu aelodaeth ar gyfer 2015/16, am y swm o £373.

Gwnaethpwyd penderfyniad unfrydol i adnewyddu ein haelodaeth.

5) Materion i'w trafod

Sedd Wag Pont-siân – Penderfynwyd y dylai'r clerc gysylltu â'r Cyngor Sir er mwyn hysbysebu'r swydd wag. Cyfeiriwyd at un enw a phenderfynwyd cyngori a gofyn i'r person ysgrifennu llythyr at y Cyngor Cymuned yn amlinellu'r ffaith bod ganddynt ddiddordeb yn y swydd wag.

Blodau – Roedd angen i'r clerc gadarnhau bod unwaith yr wythnos yn ddigon er mwyn rhoi dŵr i'r blodau, a hefyd, yr hyn yr oedd y Cyngor Cymuned yn berchen arno. Penderfynwyd gwneud yn siŵr y byddai'r sawl a fyddai'n sicrhau'r tendr yn meddu ar yswiriant er mwyn defnyddio'r tancer dŵr. Yn ogystal, penderfynwyd y byddai'r clerc yn cysylltu â'r Gymdeithas Chwaraeon er mwyn gweld a fyddai modd cadw'r tancer dŵr gyda'u hoffer nhw a hefyd, i holi am yr yswiriant.

Parc Coffa/Lle chwarae – Cafwyd llythyr gan Bwyllgor y Parc Coffa yn hysbysu'r Cyngor Cymuned na fyddent mewn sefyllfa i ymgymryd â'r cyfrifoldeb dros yr offer chwarae yn y parc. Yn dilyn trafodaeth hir, penderfynwyd y dylai'r Clerc gysylltu â Mr Paul Arnold i'w hysbysu o'n bwriad i ymgymryd â'r cyfrifoldeb dros yr offer chwarae yn unig, (oherwydd y bydd Ymddiriedolwyr y Parc yn parhau i gynnal a chadw y tir), ar yr amod bod Cyngor Sir Ceredigion yn gwneud yr holl waith trwsio gofynnol ar yr offer er mwyn sicrhau ei fod yn cydymffurfio â'r safon diogelwch ofynnol, a'u bod yn darparu tystysgrif diogelwch gyfredol a dilys am y flwyddyn drosglwyddo gychwynnol a bod y cyfrifoldeb yn cael ei drosglwyddo i'r Cyngor Cymuned. Yn ogystal, byddai angen i ni gael rhestr asedau gyfredol a chywir o'r offer chwarae. Ar ôl ymgymryd â'r cyfrifoldeb dros yr offer hwn, byddai'r asedau yn cael eu hychwanegu i'n polisi yswiriant.

Tendr Cynnal a Chadw – Ni ddylai'r eitem hon fod wedi bod ar yr agenda.

6) Er Gwybodaeth

Matters Arising:-

Swimming Pool No information had been received to date from the Swimming Pool. It was decided to put the matter on the agenda next month. Cllr Beth Davies informed the Council that a new manger had been appointed and that she would also try and get the relevant information.

Trees in Maesymeillion County Councillor Peter Davies informed the committee that inspection of the trees was being made on the 25th of April.

Salt Bin at Carmel Chapel The clerk had received a letter from Mr Paul Arnold, Ceredigion County Council informing the Council of the procedure with placing salt bins. It was decided that we wait until a decision is reached before we could do anything further. Cllr Carolyn Reed-Rees said that the junction in Prengwyn is extremely dangerous in frosty weather and making it very difficult to stop.

4) Matters requiring decisions:-

(i) Triawd y Cardi paper – A donation of £300 was asked in order to publish a paper for the area of Pontsian, Tregroes and Capel Dewi. Cllr Eileen Curry proposed donating the £300 and Cllr Phillipa Davies seconded this. They felt that it was very important as it would integrate new people into the Communities. It was decided that the clerk write to the Committee of the Paper to inform them of the importance of becoming self-sufficient as the Community Council would not be in the position possibly to fund the next edition.

Correspondence

One Voice Wales - A renewal letter was received from One Voice Wales for membership for 2015/16 for £373. It was decided unanimously to renew our membership.

5) Matters for discussion

Pontsian Vacancy – It was decided that the clerk contact the County Council to advertise the vacancy. One name had been mentioned and it was decided to advise and request the person to write a letter to the Community Council outlining the expression of interest in the vacancy.

Floral Display – The clerk needed to clarify that once a week was enough to water the flowers and also what actually belonged to the Community Council. It was decided to check that whoever won the tender would be insured with using the bowser. It was also decided that the clerk contact the Sports Society to see if the bowser could be kept with their equipment and also check regarding the insurance.

Memorial Park/Play area – A letter was received from the Memorial Park Committee informing the Community Council that they would not be in a position to take over the play equipment in the park. Following a lengthy discussion it was decided that the Clerk should contact Mr Paul Arnold to inform him of our intention to take over responsibility for the play equipment only, (as the Park Trustees will continue the ground maintenance aspect), and subject to (Ceredigion County Council carrying out all necessary repairs to bring the equipment up to the required safety standard, and to provide a valid current safety certificate covering the initial year of transfer and responsibility being transferred to the Community Council. We would also require a current and correct asset list of the play equipment. Upon taking over the responsibility for this equipment, the assets would be added to our insurance policy.

Maintenance Tender – This item should not have been on the agenda.

6) For Information

Acknowledge Receipt of donation – Llandysul branch of Cancer Research UK.

Cydabod Derbyn rhodd – Cangen Ymchwil Canser y DU Llandysul.

Gohebiaeth

Negeseuon e-bost – Gweler y rhestr sydd ynghlwm o'r holl negeseuon e-bost a anfonwyd at y clerwr ac a anfonwyd ymlaen at yr aelodau rhwng 9 Mawrth a 12 Ebrill 2015.

Ceredigion

Cafwyd llythyr ynghylch y cyfyngiad Dros Dro o 40 milltir yr awr ar ffordd A486 rhwng

Bwlch-y-groes a Chroes-lan.

Cafwyd gwybodaeth ynghylch Ymgysylltu Cyhoeddus

Diogelwch Cymunedol ar y Cyd Ceredigion a gynhelir ar 27 Ebrill.

Dosbarthwyd Hysbysiadu Cyhoeddus i'w harddangos ynghylch Etholiad Cyffredinol Senedd y DU a gynhelir ar 7/5/15.

Cafwyd llythyr ynghylch safoni enwau lleoedd. Yn dilyn trafodaeth, roedd yr aelodau yn teimlo y byddai'r Gymuned lawer yn fwy hapus os byddai'r enwau yn cael eu cadw fel ag y maent.

RAY Ceredigion – Llythyr gan Ray Ceredigion yn gofyn a fyddai'r Cyngor Cymuned yn ystyried talu am sesiynau chwarae ar gyfer Llandysul. Ar hyn o bryd, gyda'r cyfyngiadau ariannol, ni fyddai modd i'r Cyngor wneud ymrwymiad.

ULIC/SLCC – Cafwyd y cylchgrawn misol.

Cafwyd llythyr ynghylch Sir Gaerfyrddin

Llywodraeth Cymru – Cafwyd Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2014

Yswiriant Zurich – Cafwyd copi o Bolisi a Thystysgrif Yswiriant y Cyngor Cymuned. Anfonwyd sic o £660.68.

Theatr Troedryhiw – Cafwyd llythyr yn gofyn am arian.

Penderfynwyd y dylai'r clerwr anfon ffurflen ymgeisio am gyllid.

Bwcabus – Cafwyd y cylchgrawn chwarterol.

Panel Annibynnol Cymru ar Gydabyddiaeth Ariannol – Cafwyd Adroddiad Blynnyddol.

BT – Gwahoddiad i fabwysiadu ciosg am £1.00.

BDO – Cafwyd Ffurflen Flynyddol ar gyfer y Flwyddyn yn Gorffen ar 31 Mawrth 2014. bydd hon yn cael ei llenwi gan y Clerwr a'i llofnodi gan y Swyddog Ariannol Cyfrifol erbyn 23 Mehefin 2015.

7 Gwybodaeth Ariannol

Llinos Jones – Anfoneb am gyfieithu ym mis Mawrth am - £143.25.

Abacus Cleaning – Anfoneb am lanhau llochesau bws - £213.75

The Greenhouse – Cynnal a chadw Stryd y Brenin a'r safle ger mynediad y pwll nofio ar gyfer 2014-15 - £1025

Derbyniwyd y dylid talu pob un ohonynt.

8 Cynllunio: Cafwyd hysbysiad o Gyfarfod y Pwyllgor Rheoli Datblygu a gynhaliwyd ar 08/04/15.

Cymeradwyaeth Gynllunio

Blainllain, Tre-groes – A1410005

Golygfa, Maesymeillion – A140909

The Lunch Box, Llandysul – A141009

Correspondence

Emails – Find attached a list of all the emails sent to the clerk and forwarded to members from 9th March – 12 April 2015.

Ceredigion

A letter regarding Temporary 40mph restriction A486 between Bwlch-y-groes and Croeslan.

Ceredigion Joint Community Safety Public Engagement on April 27th was received

Public Notices to be displayed regarding UK Parliamentary General Election – 7/5/15 was distributed.

A letter regarding standardisation of place names was received.

Following a discussion the members felt that the Community would be much happier keeping the names as they are.

RAY Ceredigion – A letter from Ray Ceredigion asking if the Community Council would consider funding play sessions for Llandysul. At the moment with financial restraints it would not be possible for the Council to commit.

OVW/SLCC – Monthly magazine was received.

A letter was received regarding Carmarthenshire Welsh Government – Accounts and Audit (Wales) Regulations 2014 was received

Zurich Insurance – A copy of the Community Council's Insurance Policy and Certificate was received. A cheque of £660.68 was sent.

Troedryhiw Theatre – A letter asking for funding was received. It was decided that the clerk send a funding application form.

Bwcabus – Quarterly magazine was received.

Independent Remuneration panel for Wales – Annual Report was received.

BT – An invitation to adopt a kiosk for £1.00.

BDO – Annual Return for the Year Ending 31st March 2014 has been received. This is to be completed by the Clerk and signed by the Responsible Financial Officer by 23rd June 2015.

7 Financial Information

Llinos Jones – An invoice for March translation for - £143.25.

Abacus Cleaning – Invoice for cleaning of bus shelters - £213.75

The Greenhouse – Maintenance of King Street and entrance of swimming pool for 2014-15 - £1025

all were passed for payment.

8 Planning: Notice of the Development Control Committee Meeting held on 08/04/15 was received.

Planning Approval

Blainllain, Tregroes – A1410005

Golygfa, Maesymeillion – A140909

The Lunch Box, Llandysul – A141009

